Wales Centre for Health
Canolfan Iechyd Cymru

newyddion@wcfh

Rhifyn 17 2009

Y Diweddaraf am yr Ymgyrch 1000 o Fywydau

Mynychodd Dr Jonathon Gray, Andrew Cooper a Sarah Puntoni o dîm yr Ymgyrch 1000 o Fywydau 20fed Fforwm Flynyddol yr Athrofa Gwella Gofal Iechyd (IHI) ar Wella Ansawdd mewn Gofal Iechyd.

Yn y Fforwm, cyflwynodd Jonathon, Andrew, Sarah, Pat O' Connor (o'r Alban) a Virginia Crowe (ymgynghorydd IHI) sesiwn i bron 200 o gynadleddwyr ar: 'Straeon o'r Rheng Flaen: Sut y Mae Naratif yn Helpu i Wella Gofal Iechyd'. Ymysg amcanion y sesiwn roedd datblygu fframwaith ar gyfer defnyddio straeon cleifion er mwyn gwella gofal iechyd a nodi ffyrdd gwahanol i ailadrodd yr un stori i wahanol gynulleidfaoedd.

Cynhaliwyd Sesiwn Ddysgu 2 yr Ymgyrch 1000 o Fywydau yn Stadiwm Liberty, Abertawe rhwng 30 Medi a 1 Hydref.

Daeth mwy na 300 o staff o Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol ynghyd o bob cwr o Gymru ar gyfer deuddydd o rannu dysgu, profiadau ac arferion da. Roedd y Sesiwn yn gyfle i fyfyrio ar chwe mis cyntaf yr Ymgyrch a thrafod y gwersi a ddysgwyd.

Yn ogystal rhoddodd ffocws ar gyfer yr her nesaf – sut i ledaenu'r gwelliannau o un ward i bob ward, o un adran i bob adran ac o un sefydliad i bob sefydliad ar hyd a lled Cymru.

I gael rhagor o fanylion am yr Ymgyrch, ewch i'r wefan www.1000livescampaign.wales.nhs.uk

Y Diweddaraf am y Prosiect Gwella Gwasanaethau Strôc

Mae'r Prosiect Gwella Gwasanaethau Strôc yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS), Canolfan Iechyd Cymru, ac Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) i wella gwasanaethau strôc yng Nghymru.

Caiff amcanion y prosiect eu cyflawni gan bum ffrwd waith wahanol.

Mae un o'r ffrydiau gwaith yn gyfrifol am ddatblygu cydweithfeydd strôc. Cynhaliwyd gweithdai sy'n dod â thimau amlddisgyblaethol ynghyd o ysbytai sy'n darparu gwasanaethau strôc ledled Cymru. Cynhaliwyd Sesiwn Ddysgu 1 fis Tachwedd 2008 a chynhelir Sesiwn Ddysgu 2 ddechrau mis Chwefror 2009.

Yn y rhifyn hwn

Y Diweddaraf am yr Ymgyrch 1000 o Fywydau	1
Y Diweddaraf am y Prosiect Gwella Gwasanaethau Strôc	1
Gwerthusiad o Rwydweithiau Iechyd y Cyhoedd Canolfan Iechyd Cymru	2
Prifysgol Caerdydd yn Torri Tir Newydd ym Maes Iechyd	2
Cyhoeddi erthygl ar farwolaethau gwledig/ dinesig	2
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Canolfan Iechyd Cymru 2007-08	3
Cynhadledd Cyngor Cymdeithasol Newydd Sweden	3
Cyfarfod Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru	3
Newyddion ar Atal Anafiadau	3
Y Diweddaraf am Rwydwaith Dadansoddwyr Iechyd	3
Ailstrwythuro'r GIG	4
Dyddiadau i'r dyddiadur	4
Newyddion Canolfan Iechyd Cymru	5

Datblygwyd Proses Cynllunio'r Gweithlu integredig newydd ar gyfer y GIG yng Nghymru ac mae wedi dechrau cael ei rhoi ar waith ac yn cael ei harwain gan NLIAH.

Mae'r Gymdeithas Strôc hefyd wedi lansio ymgyrch hysbysebu ar y radio yng Nghymru rhwng 12 a 26 Ionawr ar y cyd â Her Iechyd Cymru. Bydd yr Ymgyrch "Pwyso a Mesur Eich Risg o Strôc" yn codi ymwybyddiaeth y bydd bod dros eich pwysau neu'n ordew yn cynyddu eich tebygolrwydd o gael pwysedd gwaed uchel a cholesterol uchel, sef y prif ffactorau risg ar gyfer strôc.

Cyhoeddir cylchlythyr chwarterol penodedig cyn bo hir a fydd yn amlinellu'r holl waith a wneir gan dîm y prosiect. Os hoffech gael copi cysylltwch â Susan Belfourd.

Gwerthusiad o Rwydweithiau Iechyd y Cyhoedd Canolfan Iechyd Cymru

Comisiynwyd Wavehill Consulting gan Ganolfan Iechyd Cymru i gynnal gwerthusiad o'i phedwar rhwydwaith iechyd y cyhoedd cenedlaethol: Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan, Rhwydwaith Maeth Cymru, Rhwydwaith Gweithgaredd Corfforol Cymru a Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan.

Comisiynwyd y gwerthusiad i fesur effeithiolrwydd y rhwydweithiau hyd yma, ac i lywio eu datblygiad posibl yn y dyfodol. Defnyddir ystod o ddulliau yn y gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn cynnwys cyfweliadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, arolygon, grwpiau ffocws ac ymchwil pen desg. Disgwylir i'r gwerthusiad gael ei gwblhau fis Chwefror 2009.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Malcolm Ward.

Prifysgol Caerdydd yn Torri Tir Newydd ym Maes Iechyd

Mae'r Athro Jonathon Gray cydgyfarwyddwr yr Ymgyrch 1000 o Fywydau, wedi cael ei benodi'n Gadeirydd penodedig Prifysgol Caerdydd gyda chyfrifoldeb am ddatblygu gwaith ymchwil ym maes gwella gofal iechyd a gofal cleifion.

Nod y swydd newydd – y cyntaf o'i bath yn y DU, sy'n swydd ar y cyd rhwng yr Ysgol Meddygaeth, yr Adran Gwyddorau Cymdeithasol a Chanolfan Iechyd Cymru - yw cryfhau enw da Prifysgol Caerdydd am

Cyhoeddi erthygl ar farwolaethau gwledig/dinesig

Amlinellwyd y gwahaniaethau mewn cyfraddau marwolaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru a Lloegr mewn erthygl a gyhoeddwyd yn Health Statistics Quarterly

Un o awduron yr erthygl yw Andrea Gartner, Dadansoddwr Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth Iechyd yng Nghanolfan Iechyd Cymru ac mae'n herio'r dybiaeth bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn byw'n hwy drwy edrych ar a ellid esbonio'r gwahaniaethau mewn cyfraddau marwolaethau drwy edrych ar ddosbarthiad amddifadedd.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r gwahaniaethau mewn cyfraddau marwolaethau yn sgil pob achos rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn diflannu pan ystyrir amddifadedd, ond bod y cyfraddau damweiniau'n parhau i fod yn llawer uwch mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol. Roedd cyfraddau canser yr ysgyfaint a chlefyd anadlol yn parhau i fod yn uwch mewn ardaloedd trefol o gymharu ag ardaloedd gwledig.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Canolfan Iechyd Cymru 2007-08

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifol Canolfan Iechyd Cymru 2007-08 wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n amlygu gwaith parhaus y sefydliad. Meddai Dr Cerilan Rogers, Prif Weithredwr Dros Dro y Ganolfan: "Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn amlygu'r gwaith da y mae'r Ganolfan yn parhau i'w wneud er mwyn gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru."

Cynhadledd Cyngor Cymdeithasol Newydd Sweden

Arweiniodd yr Athro Mansel Aylward, CB, Cadeirydd Canolfan Iechyd Cymru, dîm o ysgolheigion a wahoddwyd gan Lywodraeth Sweden i gynhadledd gyntaf Cyngor Cymdeithasol newydd Sweden yn y Weinyddiaeth Iechyd a Materion Cymdeithasol yn Stockholm ar 1 Rhagfyr.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar "Wybodaeth Wyddonol ar Lwybrau at Waith: esiampl y DU" ac fe'i mynychwyd gan fwy na 120 o gyfranogwyr gwadd a oedd yn cynnwys ysgolheigion, ymchwilwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac uwch gynghorwyr y llywodraeth, swyddogion a gwleidyddion Sweden yn bennaf.

Yn ogystal, treuliodd yr Athro Aylward a'i dîm o Gaerdydd ddiwrnod yn Athrofa Karolinska yn adran yr Athro Kristina Alexanderson yn cyfnewid gwybodaeth am eu rhaglenni ymchwil ac yn amlinellu'r sail ar gyfer cydweithio rhwng Athrofa Karolinska a Phrifysgol Caerdydd i ymgymryd ag ymchwil ar y cyd ym maes iechyd a gwaith.

Cyfarfod Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru

Cynhaliodd Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru ei gyfarfod yn swyddfa'r Ganolfan ar Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd. Mynychodd Paul Williams, Prif Weithredwr newydd y GIG yng Nghymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ad-drefnu'r GIG.

Ar ôl y cyfarfod, cyfarfu'r bwrdd ag aelodau'r staff dros ginio. Meddai'r Athro Mansel Aylward, Cadeirydd y Ganolfan, "Roedd yn gyfle da i aelodau'r bwrdd ddiolch yn bersonol i'r staff am eu holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf."

Newyddion ar Atal Anafiadau

Gofynnwyd i Ganolfan Iechyd Cymru dynnu eich sylw at y cylchlythyr Injury Prevention News (IPN), sef y cylchlythyr electronig ar y cyd rhwng Arsyllfa Anafiadau Prydain ac Iwerddon (IOBI) a Chydweithredu er mwyn Lleihau Damweiniau Rheoli Anafiadau (CAPIC). Mae IPN yn ffynhonnell wybodaeth am ddim i ymarferwyr atal anafiadau ar fentrau newydd, cyhoeddiadau ar ystadegau, canfyddiadau ymchwil a digwyddiadau a chynadleddau.

Yn rhif y mis hwn mae adroddiadau ar: y cyhoeddiad y caiff 10fed Cynhadledd y Byd ar Atal Anafiadau a Hybu Diogelwch ei chynnal yn y DU; adroddiad ar pam mae plant yn marw - 'Why Children Die'; map Angau a'i Gleddau Glas (dadansoddiad o farwolaethau ym Mhrydain); gwefan newydd Sefydliad Iechyd y

Y Diweddaraf am Rwydwaith Dadansoddwyr Iechyd Cymru

Yng nghyfarfod diweddaraf Rhwydwaith Dadansoddwyr Iechyd Cymru (WHAN) cafwyd cyflwyniadau gan Mike O'Connor o Ganolfan Iechyd Cymru ynghylch datblygu porth Iechyd yng Nghymru ar y we, a'r athro Paul Harper ar fodelu gofal iechyd o safbwynt ymchwil weithredol.

Cafwyd cyflwyniad gan Gareth John hefyd ar Health Maps Wales, rhaglen ar y we sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fapio a dadansoddi ystadegau.

Mae aelodau WHAN yn cynnwys pobl o'r Cynulliad, Canolfan Iechyd Cymru, Uned Ddata Llywodraeth Leol, y GIG a'r byd academaidd. Mae WHAN yn cyfarfod bob tri mis ac mae'r cyfarfodydd ar ffurf sesiynau DPP gyda chyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol allanol ac aelodau'r Rhwydwaith.

Cadeirydd y cyfarfodydd yw Sue Leake (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac mae Canolfan Iechyd Cymru yn darparu cymorth gweinyddol ar gyfer y rhwydwaith. Rhys Gibbon Dadansoddwr Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth Canolfan Iechyd Cymru sy'n darparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth ac ef sy'n cydgysylltu'r cyfarfodydd.

Ailstrwythuro'r GIG

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi papur ymgynghorol ar uno gwasanaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae'n cynnwys cynnig i sefydlu Ymddiriedolaeth GIG iechyd y cyhoedd newydd yn cynnwys swyddogaethau Canolfan Iechyd Cymru, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Uned Arolygiaeth a Gwybodaeth Canser Cymru (WCISU), Gwasanaethau Sgrinio Cymru a'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS).

Mae'r papur, ynghyd â'r pedair dogfen ategol a manylion am sut i ymateb cyn 24 Ebrill, ar gael ar-lein. Gellir cael mynediad i'r papur yn uniongyrchol o: bapur ymgynghorol Uno Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru.

Mae GIG Cymru wedi sefydlu safleoedd ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd gyda gwybodaeth a newyddion am ddiwygio'r GIG, yn cynnwys gwybodaeth am Brosiect y Sefyldiad Iechyud y Cyhoedd Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, tanysgrifiwch i Cyswllt, e-fwletin a fydd yn eich helpu i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ar ddiwygio'r GIG.

Dyddiadau i'r dyddiadur

Anghydraddoldebau Iechyd: Atal y Llanw? Ffocws ar Dai, Trafnidiaeth aChomisiynu

25-26 Mawrth 2009

The Brighton Centre

Bydd 17eg Fforwm Flynyddol Iechyd y Cyhoedd UKPHA yn trafod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, tai ac iechyd, trafnidiaeth ac iechyd, comisiynu er mwyn lleihau anghydraddoldebau, a datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd.

Gellir cael rhagor o fanylion yn www.ukphaconference.org.uk

Newyddion Canolfan Iechyd Cymru

- Mae Anna Morgan ar secondiad tymor penodedig gyda Thîm Lleol Iechyd y Cyhoedd Caerffili fel Swyddog Hybu Iechyd.
- Mae Susan Belfourd wedi ymuno â'r Ganolfan fel Swyddog Gweithredol Cyfathrebu.
- Mae Karen Stanton wedi ymuno â'r Ganolfan fel Swyddog Cymorth Tîm.
- Mae Victoria Evans wedi ymuno â'r Ganolfan fel Swyddog Cymorth Tîm.
- Mae Sigrid Ornertzeder wedi ymuno â'r Ganolfan fel Cydgysylltydd Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan.
- Mae Kelly Mason wedi cael ei phenodi'n Gydgysylltydd newydd Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan.

Hoffem eich sicrhau y caiff eich manylion eu cadw'n gwbl gyfrinachol. Fodd bynnag, os hoffech roi'r gorau i dderbyn newyddion@wcfh yna ebostiwch wch@wch.wales.nhs.uk

Canolfan Iechyd Cymru, 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd. CF11 9LJ
Ffôn: 029 2022 7744 Ffacs: 029 2022 6749